



Gorffennaf 11^{eg} 2022

Annwyl Riant/Ofalwr,

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi am rai newidiadau pwysig y byddwn yn eu rhoi ar waith tymor nesaf i gyfoethogi profiad addysgol eich plentyn yma yn Ysgol Aberconwy!

Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod nifer cynyddol o fyfyrwyr yn gwneud cais i'n hysgol, ac er bod hyn bob amser yn braf i'w glywed, gall fod yn her darparu ar gyfer pob un ohonynt – yn enwedig pan fyddant yn cyrraedd grŵp blwyddyn sefydledig yng nghanol y flwyddyn ysgol.

Dyma'n union a ddigwyddodd ym Mlwyddyn 8 eleni, ac felly rydym wedi penderfynu ehangu nifer y dosbarthiadau cofrestru yn y grŵp blwyddyn a nifer y grwpiau mewn rhai meysydd pwnc. Bydd hyn yn golygu, o fis Medi, y bydd maint dosbarthiadau yn lleihau yn y rhan fwyaf o bynciau ac o ganlyniad bydd eich plentyn yn cael mwy o gefnogaeth a sylw yn y gwersi ac yn ystod amser dosbarth. Bydd hefyd yn golygu os byddwn yn parhau i dderbyn ceisiadau i'r ysgol, bydd gennym le ar eu cyfer heb effeithio'n andwyol ar eraill.

Yn amlwg, wrth i ni wneud y newidiadau hyn byddwn yn gofalu ein bod yn cynnal grwpiau cyfeillgarwch sydd wedi'u hen sefydlu a sicrhau bod myfyrwyr yn aros mewn setiau yn unol â'u gallu lle mae hynny'n wir ar hyn o bryd. Yn ogystal, er y dylai'r newidiadau hyn fod o fudd i bawb yn y grŵp blwyddyn, nifer cymharol fach yn unig fydd yn newid grwpiau dosbarth cofrestru.

Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod hwn yn gyfnod cyffrous i fod yn rhan o gymuned ein hysgol, ac y byddwch yn dawel eich meddwl o ran ein hymrwymiad i ddarparu'r profiad gorau posibl gyda'r adnoddau sydd gennym. Byddwn yn rhoi amserlenni newydd i'r myfyrwyr yn y tymor newydd, ac yn gweithredu'r newidiadau pan fyddant yn cychwyn yn ôl ar Fedi 5^{ed}, ond os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau rhwng nawr a diwedd y tymor mae croeso i chi gysylltu â ni.

Gyda llawer o ddiolch,

Yn gywir iawn,

Ian Gerrard

Pennaeth

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE



July 11th 2022

Dear Parent/Carer,

I am writing to let you know about some important changes that we will be implementing next term to enhance your child's educational experience here at Ysgol Aberconwy!

I am sure you are aware that an increasing number of students are applying to our school, and whilst this is always pleasing to hear, it can be a challenge to accommodate all of them – particularly when they arrive in an established year group in the middle of the school year.

This is exactly what has happened in Year 8 this year, and so we have decided to expand the number of form classes in the year group and the number of groups in some subject areas. This will mean that, from September, class sizes will be reduced in most subjects and consequently your child will receive more support and attention both in lessons and during form time. It will also mean that if we continue to receive applications to the school, we have the space to accommodate them without adversely affecting others.

Obviously, as we make these changes we will be mindful of maintaining well established friendship groups and ensuring that students remain in sets according to their ability where that is currently the case. In addition, whilst these changes should benefit everyone in the year group, only a relatively small number will actually be changing form groups.

I am sure you will agree that this is an exciting time to be part of our school community, and will be reassured of our commitment to provide the very best experience we can with the resources we have available. We will be handing new timetables to the students in the new term, and implementing the changes when they start back on September 5th, but if you have any concerns or questions between now and the end of term please don't hesitate to get in touch.

With many thanks,

Yours sincerely,

Ian Gerrard

Headteacher

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE